

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Panel Dethol y Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	6 Mehefin 2023
TEITL YR ADRODDIAD:	Recriwtio aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cytuno ar ofynion y fanyleb person a'r ffurflen gais
AWDUR YR ADRODDIAD:	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) Swyddog Monitro LynnBall@ynysmon.llyw.cymru 01248 752586

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae angen i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau benderfynu ar y meini prawf ar gyfer yr aelod annibynnol newydd sydd i'w benodi i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir.
- 1.2 Yn dilyn y broses hysbysebu, bydd y Panel Dethol yn sgorio'r ceisiadau a geir yn erbyn y meini prawf ac yn dilyn hynny bydd yn cyfweld yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ac yn gwneud unrhyw argymhellion o ran penodiad i'r Cyngor Sir. Bydd y penodiad yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor Sir.

2. GOFYNION DEDDFWRIAETHOL

- 2.1 Mae isafswm y gofynion statudol ar gyfer rôl aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi eu nodi yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.
- 2.2 Rhaid i unrhyw ymgeisydd allu bodloni'r anghenion hyn i gael eu hystyried.

3. GOFYNION YCHWANEGOL

- 3.1 Gellid hefyd gweithredu gofynion ychwanegol (y cyfeirir atynt fel meini prawf dewis lleol). Gallai'r rhain gynnwys sgiliau neu rinweddau a ystyrir yn fanteisiol er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd gorau a mwyaf addas yn cael ei benodi.
- 3.2 Mae enghreifftiau o feini prawf dewis lleol wedi eu cynnwys yn **Atodiad 2** yr adroddiad.

4. MEINI PRAWF AR GYFER Y BROSES RECRIWTIO YN 2017 a 2019

- 4.1 Y gofynion statudol oedd yr unig feini prawf a osodwyd ar gyfer y broses recriwtio yn 2019 er mwyn llenwi pedair sedd wag ar y Pwyllgor Safonau. Derbyniwyd 12 cais.

4.2 Fodd bynnag, yn 2017, yn ogystal â'r gofynion statudol, gofynnwyd am feini prawf dewis lleol hefyd. Roedd y nifer o geisiadau a dderbyniwyd yn isel ac oherwydd hynny, penderfynodd y Panel na fyddai'n gosod meini prawf dewis lleol yn 2019.

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Y Panel i gytuno pa feini prawf dewis lleol y mae'n dymuno eu cynnwys (os o gwbl) yn ychwanegol at y gofynion deddfwriaethol (sydd wedi eu nodi yn **Atodiad 1**) ar gyfer recriwtio'r aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau.

Meini Prawf Deddfwriaethol: Lleiafswm y Gofynion

- Ni all person fod yn aelod annibynnol os ydi nhw, mewn perthynas â:
 - Cyngor Sir Ynys Môn
 - yn gynghorydd ar hyn o bryd neu'n gyn-gynghorydd
 - yn gyflogedig gan y Cyngor neu wedi bod yn y gorffennol neu
 - yn ŵr neu wraig neu'n bartner i:
 - gynghorydd
 - gweithiwr
 - unrhyw gyngor sir arall, cyngor bwrdeistref sirol, awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub
 - yn gynghorydd ar hyn o bryd
 - yn gyflogedig ganddynt ar hyn o bryd
 - yn ŵr neu wraig neu'n bartner i:
 - gynghorydd
 - gweithiwr
 - os yw'r ymgeisydd wedi rhoi'r gorau iddi i fod yn gynghorydd neu'n gyflogedig ers yn hirach na 12 mis [gan ddechrau ar y dyddiad y peidiodd yr ymgeisydd â bod yn gynghorydd/yn gyflogedig], gall ymgeisio
 - unrhyw gyngor cymuned
 - cynghorydd presennol
 - rhywun sy'n gyflogedig ar hyn o bryd
 - yn ŵr neu wraig neu'n bartner i:
 - gynghorydd
 - gweithiwr
- Rhywun nad ydynt wedi eu gwahardd rhag dal swydd o dan adran 80 Deddf Llywodraeth Leol 1972:
 - Yn amodol ar orchymyn methdaliad sydd heb ei ryddhau;
 - Sydd ag euogfarn troseddol o fewn y 5 mlynedd diwethaf lle rhoddwyd dedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o ddim llai na 3 mis
- Ddim wedi ei wahardd/gwahardd rhag bod yn aelod o gyngor o dan Ran III Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Meini Prawf Dewis Lleol / Sgiliau y gellid eu hystyried yn fanteisiol:

Mae Enghreifftiau yn cynnwys -

- Y gallu i ddangos y rhinweddau a'r sgiliau canlynol:
 - Sgiliau gwranddo
 - Y gallu i bwysu a mesur tystiolaeth
 - Meddwl annibynnol
 - Didueddrwydd
 - Y gallu i ffurfio barn wrthrychol ac i egluro'r safbwynt hwnnw drwy gyfeirio at y dystiolaeth
 - Sgiliau gwaith tîm
 - Parch tuag at eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiaeth
 - Disgresiwn
 - Unplygrwydd personol
 - Ddim yn cymryd rhan weithredol mewn gwleidyddiaeth leol na chenedlaethol
- Nid yw gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol yn angenrheidiol ond fe allai fod o fantais petai gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn materion yn ymwneud â bywyd cyhoeddus a gwasanaethau.
- Fe ddylai aelodau annibynnol fod:
 - Yn bobl sy'n cael eu parchu yn y gymuned
 - Yn gallu bodloni'r gofynion amser sy'n gysylltiedig â'r rôl
- Fe ddylai aelodau annibynnol fod hefo sgiliau TGCh elfennol yn cynnwys gallu defnyddio gliniadur / iPad er mwyn cael mynediad at negeseuon e-bost ac ymuno efo cyfarfodydd yn rhithiol gan ddefnyddio llwyfannau megis Teams neu Zoom.